**Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru**

**General Teaching Council for Wales**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT

**2013-2014**

**Cynnwys**

**tudalen**

Rhagair y Cadeirydd

Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

Cynllunio gweithgareddau'r Cyngor

Amcan 1: Cynnal a hyrwyddo'r safonau uchaf o arferion ac ymddygiad proffesiynol

Amcan 2: Darparu llais annibynnol, cynrychioliadol ac awdurdodol ar gyfer y proffesiwn ar faterion addysgu

Amcan 3: Meithrin ymarfer a datblygiad proffesiynol adfyfyriol mewn addysgu

Amcan 4: Cyfathrebu cyfraniad cadarnhaol y proffesiwn addysgu i gymdeithas

Amcan 5: Darparu systemau cyllid, personél a gweinyddol effeithlon, effeithiol a chadarn sy'n cefnogi tasg y Cyngor o gyflwyno a chyfathrebu ei amcanion

Amcan 6: Cyfrannu at y trefniadau i ad-drefnu CyngACC fel corff proffesiynol newydd ar gyfer y gweithlu addysg ehangach

Aelodau'r Cyngor a phresenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd Pwyllgor

Datganiadau Ariannol Cryno

Nodiadau i'r cyfrifon

## RHAGAIR Y CADEIRYDD

Annwyl gyfaill,

Dyma'r adroddiad blynyddol olaf ond un i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ac rwy'n falch iawn o'i gyflwyno i chi.

Cyn bo hir, bydd gan y Cyngor yn ei ffurf bresennol fel y corff rheoleiddio proffesiynol statudol ar gyfer athrawon ysgol gylch gorchwyl estynedig. O fis Ebrill 2015, byddwn yn Gyngor sydd wedi'i ad-drefnu ac yn Gyngor y bydd ganddo enw newydd - sef Cyngor y Gweithlu Addysg - a fydd hefyd yn cofrestru ac yn rheoleiddio athrawon ym maes Addysg Bellach ac, o'r flwyddyn ganlynol, staff cymorth dysgu mewn ysgolion ac Addysg Bellach. Wedi hyn bydd y Cyngor yn gyfrifol am ryw 70,000 o ymarferwyr addysg - sef bron dwywaith nifer y cofrestreion presennol. Mae'r datblygiad hwn yn gwneud llawer o synnwyr yng nghyd-destun ystod yr oedolion sy'n cefnogi gwaith athrawon mewn ysgolion a'r llwybrau dysgu sydd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed. Ynddo'i hun, bydd ymestyn rheoleiddio dan arweiniad y proffesiwn i gynnwys athrawon AB yn gwneud llawer i godi statws y proffesiwn addysgu yn y sector hwnnw.

Roedd yn naturiol, felly, bod llawer o'r flwyddyn a fu wedi'i ddominyddu gan gysylltiad y Cyngor â phroses ddeddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, wedi i'r llywodraeth gyflwyno Bil Addysgu (Cymru) ym mis Gorffennaf 2013. Roedd y Cyngor yn weithgar iawn drwy gydol y camau deddfwriaethol yn ceisio llywio manylion y Bil ar sail y profiad sydd ganddo dros bedair blynedd ar ddeg o reoleiddio proffesiynol. Derbyniodd Bil Addysg (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2014. Fel Cyngor, rydym ar ben ein digon y bydd ein systemau, ein prosesau a'n staff yn parhau'n rhan o'r sefydliad newydd am y byddwn yn parhau fel yr un endid cyfreithiol. Mae hyn yn dyst i ansawdd yr hyn rydym wedi'i roi yn ei le ers i ni ddod i fodolaeth. Rydym eisoes wedi dechrau paratoi ar gyfer y cyfnod trosiannol i'n cylch gorchwyl estynedig a dywedaf fwy am hynny yn fy adroddiad blynyddol terfynol flwyddyn nesaf.

Gan weithio o fewn y cyd-destun uchod, rydym wedi cynnal ymagwedd o weithredu yn ein modd arferol. Rydym wedi sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio - sef cofrestru a gwaith achosion safonau proffesiynol - wedi parhau i fod o ansawdd uchel ac yn unol â therfynau amser. Cofrestrwyd dros 37,600 o athrawon yn ystod y flwyddyn gyda 53,000 o chwiliadau ar-lein gan Awdurdodau Lleol, ysgolion, asiantaethau ac aelodau'r cyhoedd. Gwelwyd cynnydd unwaith eto eleni yn nifer yr achosion yr ymdrinion ni â nhw, gan gynnwys 52 o achosion safonau proffesiynol a 58 o achosion yn ymwneud â cheisiadau addasrwydd. O dan ein cynllun cydraddoldeb, mae ein hadroddiad yn darparu dadansoddiad, am y tro cyntaf, o'n gwaith achosion safonau proffesiynol ac addasrwydd yn ôl rhyw, oedran, ethnigrwydd, iaith ac anabledd. Mae'r gwaith hwn, sy'n cael ei weithredu yn unol â'r galw amdano, yn parhau i olygu goblygiadau ariannol mawr i ni fel Cyngor am nad oes gennym reolaeth dros lefel ein hincwm ffioedd cofrestru.

Yn ystod y flwyddyn ymatebon ni ar ran y proffesiwn i amrywiol ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru ac Estyn a bu i ni gynnig cyflwyniadau i adolygiadau Tabberer a Hill. Terfynodd ein cyfranogiad yn y prosiect a gyllidwyd gan yr UE i ddatblygu polisi ar bortffolio proffesiynol addysgwyr a llwyddom i gynnwys syniadau cynharach y Cyngor ar

gofnodi a hunanadfyfyrio i helpu i lywio deilliannau'r prosiect. Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn ystyried portffolio datblygiad proffesiynol.

Ar yr ochr weithredol, rydym wedi llwyddo i weinyddu rhaglenni Llywodraeth Cymru i gefnogi 2,300 o athrawon drwy'r rhaglenni Sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar. Derbyniom rôl ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ac mae'n braf gen i adrodd ein bod wedi llwyddo i neilltuo mentor i bob ANG cymwys erbyn hanner tymor mis Hydref 2013. Roedd hwn yn welliant mawr o gymharu â threfniadau'r flwyddyn gyntaf. Gofynnwyd hefyd i ni dderbyn rolau estynedig yn ail flwyddyn rhaglen y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol.

Ym mis Hydref, traddodwyd ein degfed Ddarlith Cymru Addysg gan yr Athro Laura McAllister, Cadeirydd Chwaraeon Cymru. Tynnodd y digwyddiad hwn, sydd wedi ennill ei blwyf yn dda erbyn hyn, addysgwyr a'r gymuned chwaraeon at ei gilydd am noson ragorol yn trafod rôl ysgolion wrth ysbrydoli cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol. Yn anffodus, am resymau ariannol, ni fyddwn yn gallu cynnal darlith yn 2014.

Bu i ni barhau i gynnal perthnasau gwaith da gyda sefydliadau partner a bydd hyn yn parhau'n bwysig wrth i ni symud tuag at fod yn sefydliad estynedig gydag ystod helaethach o randdeiliaid. Rydym wedi cynyddu ein dulliau cyfathrebu drwy lansio cynllun Personau Cyswllt Ysgolion ac mae gennym oddeutu 100 o enwau cyswllt erbyn hyn mewn ysgolion sy'n derbyn diweddariadau drwy e-bost yn ogystal â'n gwefan a chyfathrebu drwy Twitter a ddefnyddir gennym yn rheolaidd.

Peth boddhaol iawn yw gwybod ein bod wedi cadw trefn dda ar bethau'n fewnol. Rhoddodd Swyddfa Archwilio Cymru farn archwilio ddiamod ar gyfrifon 2012-13. Mae ein dulliau rheoli mewnol wedi'u gwirio gan ein contractwyr archwilio mewnol sydd wedi rhoi lefelau uchel o sicrwydd i ni am ansawdd ein systemau. Mae'r cylch a weithredwn o adolygiadau polisi mewnol wedi sicrhau bod ein dulliau gweithredu'n parhau'n berthnasol. Mae aelodau’r Cyngor yn datgan mor uchel yw ansawdd y cymorth a gânt gan staff.

Hoffwn gloi fy *Rhagair* gyda sylw pwysig am gyllid. Mae ein dogfen lawn ar y cyfrifon blynyddol yn disgrifio'r sefyllfa anodd iawn rydym ynddi ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Wrth gynllunio ar gyfer ein blwyddyn olaf fel CyngACC, ni chawsom ganiatâd gan y Gweinidog i roi cynnydd o £3 ar ein ffi gofrestru. O ganlyniad, symudodd y Cyngor i seithfed flwyddyn o weithredu gyda'r un lefel incwm. Rydym wedi cyflwyno'r holl doriadau roedd modd eu gwneud heb erydu ein dibenion reoleiddio a chynghori craidd, hyd yn oed i'r graddau lle bu'n rhaid neilltuo'r gronfa gyffredinol wrth gefn roeddwn wedi ei rhagweld er mwyn unioni'r gyllideb. Mae'n amlwg bod hyn yn sefyllfa annerbyniol ar gyfer corff annibynnol, a chanlyniad pellach i hynny yw na fydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn etifeddu unrhyw gronfa wrth gefn gan GyngACC. Ni allaf orbwysleisio mor gryf mae'r Cyngor yn argymell y dylai'r Gweinidog ryddhau’r Cyngor yn ei ffurf newydd wedi'i ad-drefnu, rhag cyfyngiadau'r llywodraeth mewn perthynas â'i incwm ffioedd cofrestru.

Hoffwn ddiolch i staff CyngACC am y ffordd broffesiynol maent wedi ymddwyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar adegau, mae wedi bod yn ansefydlog iawn iddyn nhw. Felly, brafiach byth yw nodi bod eu dyfodol, ac yn wir, dyfodol y Cyngor yn gyffredinol yn sefydlog bellach wrth i ni symud ymlaen a throi'n gorff rheoleiddio proffesiynol gyda chylch gorchwyl estynedig.

Yn gywir iawn,

Angela Jardine
Cadeirydd



Angela Jardine
Cadeirydd y Cyngor

## Crynodeb gweithredol

### Llwyddiannau Allweddol yn ystod 2013-2014

Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, wrth fodloni ei amcanion gweithredol, yn amlygu'r llwyddiannau allweddol canlynol yn ystod y flwyddyn 2013–2014:

**Cynnal a hyrwyddo'r safonau uchaf o arferion ac ymddygiad proffesiynol**

- **Cofrestru dros 37,500 o athrawon**
- **Cynnal hyder y cyhoedd a'r proffesiwn ym maes addysgu drwy weinyddu 111 o achosion safonau proffesiynol mewn modd effeithiol**
- **Hwyluso mynediad i'r Gofrestr, gan alluogi dros 50,000 o chwiliadau ar-lein gan y cyhoedd, cyflogwyr ac aelodau**

**Darparu llais annibynnol, cynrychioliadol ac awdurdodol ar gyfer y proffesiwn ar faterion addysgu**

- **Cymryd rhan mewn adolygiadau cenedlaethol i Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a Dulliau Darparu Gwasanaethau Addysg yn y Dyfodol**
- **Cynnal seminar Cymru ar gyfer adroddiad BERA-RSA 'Ymchwil a'r Proffesiwn Addysgu'**

**Meithrin arfer a datblygiad proffesiynol adfyfyriol ym maes addysgu**

- **Sicrhau bod rhyw 2,300 o athrawon yn nhair blynedd cyntaf eu gyrfaoedd wedi'u cefnogi drwy weinyddu cyllid ar gyfer Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cyntaf athrawon a'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol mewn modd effeithlon.**
- **Cymryd rhan mewn prosiect rhyngwladol a gyllidwyd drwy'r UE i ddatblygu 'Polisi ar gyfer Tystiolaeth Addysgwyr mewn Portffolio'**

**Cyfathrebu cyfraniad cadarnhaol y proffesiwn addysgu i gymdeithas**

- **Cyfrannu at drafodaeth broffesiynol drwy drefnu degfed Ddarlith Addysg Cymru fel digwyddiad uchel ei broffil**
- **Llwyddo i gynyddu niferoedd ymwelwyr i'n stondin yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**

**Darparu systemau cyllid, personél a gweinyddol effeithlon, effeithiol a chadarn sy'n cefnogi tasg y Cyngor o gyflwyno a chyfathrebu ei amcanion**

- **Gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2014-15 yn wyneb cyfyngiadau ariannol eithriadol**

- **Cynllunio blwyddyn olaf gweithrediadau CyngACC cyn iddo gael ei ad-drefnu fel Cyngor y Gweithlu Addysg**

**Cyfrannu at y trefniadau i ad-drefnu CyngACC fel corff proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg ehangach**

- **Cynnal sesiwn briffio ar gyfer Aelodau Cynulliad a helpodd i lywio'r drafodaeth ynghylch ymestyn rheoleiddio proffesiynol**
- **Cyflwyno dadansoddiadau a thystiolaeth fanwl ar Fil Addysg (Cymru) i Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad Cenedlaethol ac i'r Gweinidog a swyddogion**

**Cyflwyniad**

Mae’r Adroddiad Blynyddol hwn gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn cwmpasu’r flwyddyn weithredol rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014.

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yw’r corff proffesiynol hunanreoleiddiol i athrawon yng Nghymru ac fe’i sefydlwyd gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Daeth y Cyngor i fodolaeth ar 1 Medi 2000. Diwygiwyd Deddf 1998 gan Ddeddf Addysg 2002.

Mae Cynghorau Addysgu Cyffredinol hefyd yn bodoli yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Mae CyngACC wedi ceisio cydweithio gyda’i chwaer-Gynghorau a dysgu o’u profiadau.

Mae prif nodau’r Cyngor, fel y nodwyd yn Neddf 1998, fel a ganlyn:

- cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu, a
- chynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymysg athrawon, er budd y cyhoedd.

Mae’r Cyngor yn gyfrifol am y canlynol:

- darparu cyngor i Weinidogion Cymru a chyrff dynodedig eraill ar:
    - safonau addysgu;
    - safonau ymddygiad ar gyfer athrawon;
    - rôl y proffesiwn addysgu;
    - hyfforddiant, datblygiad gyrfaol a rheoli perfformiad athrawon;
    - recriwtio i’r proffesiwn addysgu;
    - ffitrwydd meddygol i addysgu;

    ac, os bydd yn ofynnol gan Weinidogion Cymru, ar unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud ag addysgu;

- sefydlu a chynnal Cofrestr o Athrawon Cymwys yng Nghymru;
- darparu Cod Proffesiynol ar gyfer athrawon cofrestredig;
- cyflawni swyddogaethau disgyblu mewn perthynas ag athrawon sydd wedi’u cyhuddo o gamymddygiad a/neu anghymhwysedd proffesiynol difrifol.

Ar gais Llywodraeth Cymru, caiff y Cyngor ymgymryd â gweithgareddau sydd wedi’u cynllunio i hyrwyddo recriwtio i’r proffesiwn addysgu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) athrawon.

Mae'r Cyngor yn cael ei gyllido gan ffioedd cofrestru athrawon ar gyfer ei waith rheoleiddio a chynghori. Cafodd y Cyngor gyllid gan Lywodraeth Cymru hefyd i weinyddu dyfarnu Statws Athro Cymwys, gweinyddu cyllid ar gyfer Sefydlu, Datblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC) a'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MYA), gwrando ar apeliadau Sefydlu a chyhoeddi tystysgrifau Sefydlu. Talodd Llywodraeth Cymru hefyd

am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rheiny sy'n ymgeisio i gofrestru am y tro cyntaf.

Ar gyfer y cyfnod mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn ei gwmpasu, Cadeirydd y Cyngor oedd Angela Jardine. Sue Rivers oedd Dirprwy Gadeirydd y Cyngor. Yr uwch aelodau staff oedd: Gary Brace (Prif Weithredwr), Hayden Llewellyn (Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon), Julia Evans (Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol) a Karen Evans (Rheolwr Polisi a Chynllunio).

**Cynllunio Gweithgareddau'r Cyngor**

Amlinellwyd gweithgareddau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014 yn y Cynllun Corfforaethol 2013-2015 a'r Cynllun Gweithredol 2013-2014. Perfformiad y Cyngor yn erbyn y targedau a'r mesurau yn y Cynllun Gweithredol hwn sy'n darparu prif ffocws yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Roedd y Cynllun Gweithredol yn canolbwyntio ar bum amcan:

**Amcan 1:** cynnal a hyrwyddo'r safonau uchaf o arferion ac ymddygiad proffesiynol;

**Amcan 2:** darparu llais annibynnol, cynrychioliadol ac awdurdodol ar gyfer y proffesiwn ar faterion addysgu;

**Amcan 3:** meithrin arfer a datblygiad proffesiynol adfyfyriol ym maes addysgu;

**Amcan 4:** cyfathrebu cyfraniad cadarnhaol y proffesiwn addysgu i gymdeithas;

**Amcan 5:** darparu systemau cyllid, personél a gweinyddol effeithlon, effeithiol a chadarn sy'n cefnogi tasg y Cyngor o gyflwyno a chyfathrebu ei amcanion; ac

**Amcan 6:** Cyfrannu at y trefniadau i ad-drefnu CyngACC fel corff proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg ehangach

**Amcan 1 Cynnal a hyrwyddo’r safonau uchaf o arferion ac ymddygiad proffesiynol**

Mae gan y Cyngor rôl allweddol o ran cynnal a hyrwyddo’r safonau uchaf o arferion ac ymddygiad proffesiynol o fewn y proffesiwn addysgu er budd y cyhoedd, athrawon a disgyblion.

**<u>Dyfarnu Statws Athro Cymwys (SAC)</u>**

Cwblhawyd y gwaith blynyddol o brosesu niferoedd y myfyrwyr a oedd yn ymadael â’r coleg a chyhoeddi’r tystysgrifau SAC yn unol â’r terfyn amser. Roedd hyn yn golygu cysylltu’n effeithiol â Sefydliadau Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (AHCA) yng Nghymru i nodi myfyrwyr yr oedd disgwyl iddynt gwblhau eu hyfforddiant cychwynnol athrawon, dyrannu rhifau cyfeirnod athro i bob un a dyfarnu SAC i’r rheiny a oedd yn gymwys. At ei gilydd, dyfarnodd y Cyngor SAC i 1,424 o ymgeiswyr.

Yn ogystal, asesodd y Cyngor 105 o geisiadau am SAC gan athrawon o rannau eraill o’r DU (yr Alban, Gogledd Iwerddon a Guernsey) a’r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn unol â therfynau amser mewnol a rhai’r Gymuned Ewropeaidd, a dyfarnwyd SAC i 73 o'r ymgeiswyr hyn. Hefyd, dyfarnodd y Cyngor SAC i 50 o unigolion a gymhwysodd drwy lwybr cyflogaeth y Rhaglen Athro Graddedig (GTP).

**<u>Cynnal a datblygu’r Gofrestr Athrawon Cymwys</u>**

Mae'r Gofrestr Athrawon Cymwys yn ffordd o roi sicrwydd i rieni, y cyhoedd a chyflogwyr bod athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion a gynhelir yn meddu ar gymwysterau addas a'u bod yn parhau i gynnal safonau uchel o ymddygiad a chymhwysedd proffesiynol.

Darparodd y Cyngor wasanaeth gwybodaeth effeithlon, diogel a chyfrinachol o’r Gofrestr athrawon cymwys i aelodau’r proffesiwn, cyflogwyr a’r cyhoedd. Parhaodd y Cyngor i gynnal a gwella’r Gofrestr yn ystod y flwyddyn weithredol, gan brosesu ceisiadau newydd i gofrestru fel oedd yn briodol ac ychwanegu manylion a gwybodaeth bellach, fel cymwysterau athrawon, at gofnodion sydd eisoes yn bodoli.

Mae’r Cyngor wedi cynnal perthnasau gwaith effeithiol gyda chyflogwyr yng Nghymru, ac wedi sicrhau lefel uchel o gydymffurfiaeth ymysg cyflogwyr o ran gwirio’r Gofrestr i sicrhau mai athrawon cofrestredig yn unig sy’n cael eu cyflogi i weithio fel athrawon cymwys mewn ysgolion a gynhelir. Ar 31 Mawrth 2014, roedd 37,674 o athrawon wedi'u cofrestru, yr oedd 1,307 ohonynt yn Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG).

Ymgymerwyd â mwy na 53,000 o chwiliadau ar-lein o'r Gofrestr Athrawon Cymwys gan Awdurdodau Lleol, asiantaethau cyflenwi athrawon ac aelodau'r cyhoedd yn ystod blwyddyn weithredol 2013-2014.

## <u>Darparu gwybodaeth o’r Gofrestr</u>

Parhaodd y Cyngor i ddefnyddio’r wybodaeth a ddarperir gan y Gofrestr Athrawon Cymwys i lywio ei gyngor, ei waith datblygu polisi, ei weithrediadau a’i weithdrefnau, a’i gyhoeddiadau. Cyhoeddwyd gwybodaeth unigryw o'r Gofrestr yn ein Crynodeb Ystadegau blynyddol.

Mae gwybodaeth a data o'r Gofrestr wedi parhau i lywio gwaith Llywodraeth Cymru o ddatblygu Model Cynllunio a Chyflenwad Athrawon i Gymru.

## <u>Safonau proffesiynol: cynnal safonau ymddygiad a chymhwysedd</u>

### Swyddogaeth Ddisgyblu'r Cyngor

Mae’r Cyngor yn gyfrifol am ymchwilio i achosion lle honnir bod athro/athrawes gofrestredig yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu achosion lle mae athrawon wedi’u heuogfarnu o drosedd berthnasol, a gwrando ar yr achosion hyn os oes angen.

Mae’r Cyngor wedi ystyried pob achos a gyfeiriwyd ato yn unol â’r terfynau amser a’r safonau a nodir yn ei ddogfen *Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu*.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cwblhawyd cyfanswm o **52** o achosion gan y Cyngor. Mae’r tablau canlynol yn darparu crynodeb o’r gwaith hwn.

**Tabl 1: Achosion a gwblhawyd gan y Cyngor yn ystod blwyddyn weithredol 2013-2014**

| Camau Gweithredu’r Cyngor | Nifer yr Achosion |
|---|---|
| **Achosion a gwblhawyd gan Bwyllgor Ymchwilio neu swyddogion awdurdodedig lle penderfynwyd nad oedd achos i’w ateb, nid oedd angen camau gweithredu pellach neu lle terfynwyd yr achos** | **15** |
| **Achosion a ystyriwyd gan Bwyllgor Ymddygiad Proffesiynol neu Bwyllgor Cymhwysedd Proffesiynol, yn dilyn atgyfeiriad gan Bwyllgor Ymchwilio** | **37** |

**Tabl 2: Canlyniadau achosion a ystyriwyd gan Bwyllgor Ymddygiad Proffesiynol neu Bwyllgor Cymhwysedd Proffesiynol yn ystod blwyddyn weithredol 2013-2014**

| Math y Gorchymyn Disgyblu | Nifer yr Achosion |
|---|---|
| Gorchymyn Gwahardd | **16** |
| Gorchymyn Atal (heb amodau) | **2** |
| Gorchymyn Atal (gydag amodau) | **5** |
| Gorchymyn Cofrestru Amodol | **6** |
| Cerydd | **5** |
| Profwyd y ffeithiau, ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol, a/neu euogfarn o drosedd berthnasol, ond dim gorchymyn | **0** |
| Profwyd y ffeithiau ond nid ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu euogfarn o drosedd berthnasol | **1** |
| Ni phrofwyd y ffeithiau | **2** |

**Tabl 3: Data cydraddoldeb – achosion disgyblu a gwblhawyd yn ystod blwyddyn weithredol 2013-2014**

| Rhyw | Nifer yr Achosion |
|---|---|
| Gwrywaidd | **32** |
| Benywaidd | **20** |

| Oedran | Nifer yr Achosion |
|---|---|
| 21-30 | **8** |
| 31-40 | **12** |
| 41-50 | **14** |
| 51-60 | **12** |
| 61-70 | **6** |

| Ethnigrwydd | Nifer yr Achosion |
|---|---|
| Du neu Ddu Prydeinig: Affricanaidd | **1** |
| Gwyn: Unrhyw gefndir gwyn arall | **3** |
| Gwyn: Prydeinig | **34** |
| Anhysbys (heb ei gofnodi) | **14** |

| Iaith | Nifer yr Achosion |
| --- | --- |
| Cymraeg | **13** |
| Saesneg | **28** |
| Anhysbys | **11** |

| Anabledd | Nifer yr Achosion |
| --- | --- |
| *wedi datgelu anabledd | **1** |

*Gwahoddir athrawon i roi tic mewn blwch ar eu cais i gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru os oes nam corfforol neu feddyliol arnynt sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd (Deddf Cydraddoldeb 2010). Defnyddir yr wybodaeth hon i amcangyfrif nifer yr athrawon cofrestredig ag anableddau fel y'u diffiniwyd yn ôl deddfwriaeth.

**Swyddogaeth Addasrwydd y Cyngor**

Ers 2006, nid yw person yn gymwys i gofrestru gyda'r Cyngor oni iddo gael ei fodloni bod y sawl sy'n ymgeisio i gofrestru yn addas i fod yn athro cofrestredig.

Mae'r Cyngor wedi ystyried pob datgeliad a datganiad a dderbyniwyd yn unol â'r terfynau amser a'r safonau a nodir yn ei *Reolau Cofrestru*.

Cwblhaodd y Cyngor gyfanswm o **58** cais i gofrestru lle datgelodd yr ymgeisydd fod camau gweithredu troseddol, disgyblaethol neu reoleiddiol yn gyfredol neu yn yr arfaeth. Caniatawyd **saith** cais gan Bwyllgor Addasrwydd, a chafodd **dim** eu gwrthod. Ni thynnodd **unrhyw ymgeiswyr** eu ceisiadau i gofrestru yn ôl cyn i'r Cyngor derfynu ei asesiad.

Mae'r tablau canlynol yn darparu crynodeb o'r gwaith hwn.

**Tabl 1: Asesiadau a gwblhawyd gan y Cyngor yn ystod blwyddyn weithredol 2013-2014**

| Camau gweithredu'r Cyngor | Nifer yr asesiadau |
|---|---|
| Ceisiadau i gofrestru a ganiatawyd heb Bwyllgor Addasrwydd | 51 |
| Ceisiadau i gofrestru a gyfeiriwyd at Bwyllgor Addasrwydd | 7 |

**Tabl 2: Ceisiadau a dynnwyd yn ôl gan ymgeiswyr yn ystod blwyddyn weithredol 2013-2014**

| Camau Gweithredu'r ymgeisydd | Nifer yr asesiadau |
|---|---|
| Ceisiadau i gofrestru a dynnwyd yn ôl | 0 |

**Tabl 3:** **Canlyniadau asesiadau a ystyriwyd gan Bwyllgor Addasrwydd yn ystod blwyddyn weithredol 2013-2014**

| Ceisiadau a ganiatawyd neu a wrthodwyd | Nifer yr asesiadau |
|---|---|
| **Caniatawyd** | **7** |
| **Gwrthodwyd** | **0** |

**Tabl 4:** **Data cydraddoldeb – asesiadau addasrwydd a gwblhawyd yn ystod blwyddyn weithredol 2013-2014**

| Rhyw | Nifer yr asesiadau |
|---|---|
| Gwrywaidd | **34** |
| Benywaidd | **24** |

| Oedran | Nifer yr asesiadau |
|---|---|
| 21-30 | **29** |
| 31-40 | **13** |
| 41-50 | **9** |
| 51-60 | **7** |

| | |
|---|---|

| Ethnigrwydd | Nifer yr asesiadau |
|---|---|
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig: Indiaidd | **2** |
| Cymysg: Unrhyw gefndir cymysg arall | **1** |
| Cymysg: Gwyn ac Asiaidd | **1** |
| Cymysg: Gwyn a Du Affricanaidd | **1** |
| Gwyn: Prydeinig | **52** |
| Anhysbys (heb ei gofnodi) | **1** |

| Iaith | Nifer yr Achosion |
|---|---|
| Cymraeg | **14** |
| Saesneg | **43** |
| Anhysbys | **1** |

| Anabledd | Nifer yr Achosion |
|---|---|
| *wedi datgelu anabledd | 0 |

*Gwahoddir athrawon i roi tic mewn blwch ar eu cais i gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru os oes nam corfforol neu feddyliol arnynt sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd (Deddf Cydraddoldeb 2010). Defnyddir yr wybodaeth hon i amcangyfrif nifer yr athrawon cofrestredig ag anableddau fel y'u diffiniwyd yn ôl deddfwriaeth.

### Apeliadau Sefydlu

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am wrando ar apeliadau gan ANG sy'n methu'r asesiad yn erbyn y safon diwedd Sefydlu, ond sy'n anfodlon ar benderfyniad o'r fath.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, gwrandawodd y Cyngor ar un apêl o'r fath.

**Tabl 1: Canlyniadau apeliadau a glywyd gan y Cyngor yn ystod blwyddyn weithredol 2013-2014**

| Penderfyniadau'r Cyngor | Nifer yr Apeliadau |
|---|---|
| **Caniatawyd yr apêl** | **0** |
| **Gwrthodwyd yr apêl** | **0** |
| **Ymestynnwyd y cyfnod Sefydlu** | **1**<br>(2 dymor) |
| **Cynigiwyd cyfnod estyniad gwahanol**<br>(lle mae'r apelydd wedi apelio yn erbyn penderfyniad i gyfnod Sefydlu gael ei ymestyn) | **0** |

**Tabl 2: Data cydraddoldeb – Apeliadau Sefydlu a gwblhawyd yn ystod blwyddyn weithredol 2013-2014**

| Rhyw | Nifer yr asesiadau |
|---|---|
| Gwrywaidd | **0** |
| Benywaidd | **1** |

| Oedran | Nifer yr asesiadau |
|---|---|
| 21-30 | **1** |

| Ethnigrwydd | Nifer yr asesiadau |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Gwyn: Prydeinig | **1** |

| Iaith | Nifer yr Achosion |
|---|---|
| Cymraeg | **1** |

| Anabledd | Nifer yr Achosion |
|---|---|
| *wedi datgelu anabledd | 0 |

*Gwahoddir athrawon i roi tic mewn blwch ar eu cais i gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru os oes nam corfforol neu feddyliol arnynt sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd (Deddf Cydraddoldeb 2010). Defnyddir yr wybodaeth hon i amcangyfrif nifer yr athrawon cofrestredig ag anableddau fel y'u diffiniwyd yn ôl deddfwriaeth.

***Llwyddiannau allweddol***

- **Cofrestru dros 37,500 o athrawon**
- **Cynnal hyder y cyhoedd a'r proffesiwn ym maes addysgu drwy weinyddu 111 o achosion safonau proffesiynol mewn modd effeithiol**
- **Hwyluso mynediad i'r Gofrestr, gan alluogi dros 50,000 o chwiliadau ar-lein gan y cyhoedd, cyflogwyr ac aelodau**

**Amcan 2 Darparu llais annibynnol, cynrychioliadol ac awdurdodol ar gyfer y proffesiwn ar faterion addysgu**

Mae gan y Cyngor rôl allweddol o ran darparu llais awdurdodol ar gyfer y proffesiwn addysgu. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddwysáu dylanwad y proffesiwn ar ddatblygiadau yn y dyfodol ym maes addysgu ac addysg.

**Datblygu cyngor a pholisi**

Yn ystod y flwyddyn, bu aelodau a swyddogion y Cyngor mewn cysylltiad â'i randdeiliaid allweddol. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion o'r Adran Addysg a Sgiliau, awdurdodau lleol, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, penaethiaid sefydliadau Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru, undebau athrawon ac undebau eraill.

Ymatebodd y Cyngor yn ffurfiol i nifer o ymgynghoriadau gan gynnwys,

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr adroddiad interim ar yr adolygiad o'r Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ac *Estyn* ar newidiadau arfaethedig i gylch arolygu Estyn ac amseriadau cynlluniau gweithredu ôl-arolygu

Adolygiad Llywodraeth Cymru o Gymraeg ail iaith yng nghyfnodau allweddol 3 a 4

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Canllaw Diwygiedig ar Ddiogelu Plant mewn Addysg

Cyflwynodd CyngACC dystiolaeth hefyd i Adolygiad Tabberer o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, adolygiad Hill i ddarpariaeth gwasanaethau addysg, ac ymchwiliad y Cynulliad Cenedlaethol i brosiectau a gyllidir drwy gronfeydd Ewropeaidd.

**Cyfrannu at weithgorau ar faterion sy'n berthnasol i athrawon**

Cynrychiolwyd aelodau'r Cyngor ar y grwpiau canlynol:

- Rhwydwaith Cynghorau Addysg Ewrop
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Is-adran Dysgu a Gwella a Datblygiad Proffesiynol Llywodraeth Cymru ar Sicrhau Ansawdd Deunyddiau
- Grŵp Polisi ar gyfer Tystiolaeth Addysgwyr mewn Portffolios (PEEP)

Cynrychiolwyd swyddogion y Cyngor ar y grwpiau canlynol:

- Grŵp Cynghori Teacher Support Cymru
- Fforwm Recriwtio Hyfforddiant ac Addysg Athrawon
- Grŵp Cyswllt Addysg Athrawon
- Fforwm Rhanddeiliaid Estyn

- Grŵp Pedair Cenedl y Cynghorau Addysgu Cyffredinol (Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr)
- Is-grŵp Safonau Proffesiynol Pedair Cenedl y Cynghorau Addysgu Cyffredinol

**Llwyddiannau allweddol**

- **Cymryd rhan mewn adolygiadau cenedlaethol i Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a Dulliau Darparu Gwasanaethau Addysg yn y Dyfodol**
- **Cynnal seminar Cymru ar gyfer adroddiad BERA-RSA 'Ymchwil a'r Proffesiwn Addysgu'**

**Amcan 3 Datblygu diwylliant o ddatblygiad proffesiynol ymysg athrawon**

Mae CyngACC yn gweithio i sicrhau bod athrawon newydd yn gallu cyrchu cyllid ar gyfer eu hanghenion datblygiad unigol eu hunain drwy weinyddu'r cyllid yn effeithiol ar gyfer Sefydlu, Datblygiad Proffesiynol Cynnar a'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol.

**Datblygu proffesiwn adfyfyriol a hyderus yng Nghymru**

Mae CyngACC wedi chwarae rôl weithredol mewn prosiect a gyllidwyd gan yr UE i ddatblygu polisi ar bortffolios proffesiynol ar gyfer addysgwyr. Roedd y polisi a'r llwyfan e-Bortffolio'n destun cynllun peilot yng Nghymru, fel yn y gwledydd partner eraill, a chafwyd adborth cadarnhaol iawn.

Yn dilyn ei gysylltiad â phrosiect PEEP, mae CyngACC yn parhau i gredu y byddai cyflwyno e-Bortffolio'n darparu manteision sylweddol yng Nghymru, fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn ein dogfennau Fframwaith Datblygiad Proffesiynol

**Gweinyddu cyllid ar gyfer Sefydlu, Datblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC) a'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MYA)**

Derbyniodd y Cyngor gyfrifoldeb am weinyddu cyllid Sefydlu a DPC ar ran Llywodraeth Cymru yng Nghymru ym mis Medi 2006.

Diwygiodd Llywodraeth Cymru y trefniadau ar gyfer Sefydlu Statudol o 1af Medi 2012 a chyflwynodd y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MYA) ar gyfer athrawon newydd gymhwyso. O ganlyniad, cafodd gwaith y Cyngor yn y maes hwn ei newid a'i ymestyn yn ystod y flwyddyn weithredol.

I gefnogi athrawon newydd gymhwyso yn eu blwyddyn Sefydlu, darparodd y Cyngor daliadau i fwy na 1,000 o athrawon, sy'n gyfwerth â thros £2.3 miliwn. Wrth gyllido DPC athrawon yn ystod ail a thrydedd flwyddyn eu gyrfaoedd, gweinyddodd y Cyngor daliadau o oddeutu £1.1 miliwn, gan gefnogi dros 1,300 o athrawon.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu a chynnal nifer o systemau i gofnodi ac olrhain cynnydd athrawon drwy Sefydlu, DPC a'r MYA. Mae hyn wedi cynnwys gwasanaethau ar y we er mwyn:-

> i athrawon cyflenwi gofnodi sesiynau sy'n gallu cael eu cyfrif o bosibl tuag at y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith, ac
>
> i athrawon, Cyrff Priodol a Phrifysgol Caerdydd allu gweld gwybodaeth berthnasol.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, derbyniodd CyngACC gyfrifoldeb am gydweddu ANG â'u mentoriaid. At hynny, bu CyngACC yn gweinyddu taliadau mentoriaid ac mae hyn wedi cynnwys; talu dros £2.2 miliwn mewn taliadau i fentoriaid cyflogedig a thros £500,000 mewn taliadau i fentoriaid ymgynghorol; a thros £35,000 mewn taliadau Diwrnod Dysgu.

**Llwyddiannau allweddol**

- **Sicrhau bod rhyw 2,300 o athrawon yn nhair blynedd cyntaf eu gyrfaoedd wedi'u cefnogi drwy weinyddu cyllid ar gyfer Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar athrawon a'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol mewn modd effeithlon.**
- **Cymryd rhan mewn prosiect rhyngwladol a gyllidwyd drwy'r UE i ddatblygu 'Polisi ar gyfer Tystiolaeth Addysgwyr mewn Portffolio'**

**Amcan 4 Cyfathrebu cyfraniad cadarnhaol y proffesiwn addysgu i gymdeithas**

Mae’r Cyngor yn ceisio cyfathrebu rôl a chyfraniad cadarnhaol athrawon i gymdeithas. Drwy wneud hynny, mae’r Cyngor yn ceisio herio delweddau negyddol o’r proffesiwn yn y cyfryngau ac mewn cymdeithas yn gyffredinol, ac amlygu llwyddiannau’r proffesiwn wrth godi safonau cyflawniad.

**Amlygu gwaith athrawon**

**Datblygu rhaglen ragweithiol ar gyfer y wasg a’r cyfryngau**

Denodd y Cyngor gryn sylw yn y cyfryngau yn gyffredinol ar gyfer athrawon ac addysgu, yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd, a hynny mewn papurau newydd cenedlaethol a rhanbarthol ac yn y cyfryngau darlledu.

Mae’r Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso ei broffil a’i weithgareddau yn y cyfryngau. Cynhwysir dadansoddiadau manwl o’r sylw mae’r Cyngor yn ei gael yn y cyfryngau yn adolygiadau chwarterol y Cyngor.

**Hyrwyddo addysgu fel proffesiwn uchel ei statws**

**Hyrwyddo addysgu fel gyrfa**

Mae'r Cyngor wedi parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Fforwm Recriwtio Hyfforddiant ac Addysg Athrawon a Sefydliadau Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.

**Digwyddiadau, arddangosiadau a chyflwyniadau**

Bu'r Cyngor yn arddangos mewn cynadleddau undebau athrawon, Eisteddfod yr Urdd a digwyddiadau eraill yn ymwneud ag addysg yng Nghymru a thu hwnt. Roedd y ffordd rydym yn arddangos ein cynnyrch yn destun arbrawf yn Eisteddfod yr Urdd, lle buom yn gweithio â phartneriaid ac aelodau’r Cyngor: dyblodd niferoedd ymwelwyr o ganlyniad.

Mae aelodau a swyddogion wedi mynychu, annerch neu gymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau gan gynnwys:

- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd
- Cynhadledd ASCL Cymru
- Cynhadledd ATL
- Cynhadledd IPDA
- Cynhadledd yr NUT
- Cynhadledd NAHT (Cymru)
- Seminarau 'Voice'
- Seminarau Rhwydwaith Cynghorau Addysg Ewrop

Ymwelodd swyddogion CyngACC hefyd â phob un o'r sefydliadau Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru i wneud cyflwyniadau i fyfyrwyr yn eu blwyddyn olaf ynghylch materion yn ymwneud â chymwysterau a chofrestru.

**Darlith Addysg Cymru**

Cynhaliwyd Darlith Addysg Cymru 2013 ar 21 Hydref yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Traddodwyd y Ddarlith, gyda'r teitl 'O'r Gwair i'r Aur: Rôl ysgolion wrth gyflawni cenedl sy'n caru'r campau', gan yr Athro Laura McAllister, Cadeirydd Chwaraeon Cymru. Cafwyd ymateb da iawn i'r ddarlith. Mynychodd aelodau'r proffesiwn addysgu, swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr sefydliadau rhanddeiliaid.

**Rhwydweithio**

Mae’r Cadeirydd ac uwch swyddogion wedi cynnal tri chyfarfod ffurfiol gyda chynrychiolwyr yr undebau a chymdeithasau athrawon yn ystod y cyfnod adrodd. Bu i'r Fforwm ar gyfer gweithwyr achosion undebau gyfarfod hefyd.

Cyfarfu swyddogion y Cyngor hefyd gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW), Estyn, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a chynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Uwch. Parhaodd rhaglen o gyfarfodydd gyda sefydliadau megis PTA UK ac ASPECT yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal, mae swyddogion ac aelodau wedi cyfarfod yn rheolaidd â chydweithwyr o'r Cynghorau Addysgu Cyffredinol eraill.

**Llwyddiannau allweddol**

- **Cyfrannu at drafodaeth broffesiynol drwy drefnu degfed Ddarlith Addysg Cymru fel digwyddiad uchel ei broffil**
- **Llwyddo i gynyddu niferoedd ymwelwyr i'n stondin yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**

**Amcan 5** Darparu systemau cyllid, personél a gweinyddol effeithlon, effeithiol a chadarn sy'n cefnogi tasg y Cyngor o gyflwyno a chyfathrebu ei amcanion

Mae'r Cyngor yn cyllido'i hun ar gyfer ei swyddogaethau rheoleiddio a chynghori, drwy ffioedd cofrestru athrawon. Derbyniodd y Cyngor hefyd gyllid gan Lywodraeth Cymru i weinyddu cyllid Sefydlu ar gyfer Sefydlu, Datblygiad Proffesiynol Cynnar, y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol, dyfarnu Statws Athro Cymwys a gwrando ar apeliadau Sefydlu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn talu am wiriadau datgeliadau manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rheiny sy'n ymgeisio i gofrestru am y tro cyntaf.

## Rheolaeth fewnol a gwerth am arian

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i wneud y defnydd helaethaf o'i adnoddau drwy gynllunio, monitro a rheolaeth fewnol ofalus.

### Gweithredu system i gasglu ffioedd cofrestru athrawon

Llwyddodd y Cyngor i gasglu ffioedd cofrestru blynyddol gan bob athro cymwys yn ystod y flwyddyn ariannol.

### Rheolaeth fewnol

Mae archwilwyr mewnol y Cyngor yn monitro gweithdrefnau yn rheolaidd i sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Bu uwch swyddogion y Cyngor yn parhau i ymgymryd ag adolygiadau chwarterol o'r Gofrestr Risg i sicrhau bod y Cyngor yn barod i fodloni risgiau allweddol. Rhoddwyd y senario flynyddol o 'adfer yn sgil trychineb' ar waith.

Derbyniodd y Cyngor farn archwilio ddiamod ar ei gyfrifon ar gyfer 2012-2013 gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Cynllunio a Pholisi: adolygu a gweithredu

### Proses gynllunio'r Cyngor

Amlinellodd y Cyngor ei amcanion ar gyfer y cyfnod 2013–2015 yn ei Gynllun Corfforaethol. Cynhwyswyd dadansoddiad manylach o weithgareddau a chyllidebau'r Cyngor, gan gynnwys is-amcanion, targedau a mesurau perfformiad ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2013 i 31 Mawrth 2014 yn y Cynllun Gweithredol.
Cynhaliodd y Cyngor adolygiadau chwarterol o'i gynnydd yn erbyn y targedau a'r mesurau perfformiad a nodwyd yng Nghynllun Gweithredol 2013-2014. Yn ogystal, mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn darparu crynodeb o gynnydd cyffredinol yn erbyn y cynllun hwnnw.

**Gweithredu ac adolygu polisïau**

Yn ystod y flwyddyn weithredol, bu i GyngACC fonitro ac adolygu ei amcanion cydraddoldeb, ac adrodd ar weithrediad ei Gynllun Iaith Gymraeg. Ymhlith y polisïau mewnol eraill a adolygwyd mae rhai'n ymwneud â Thywydd Gwael, Camddefnydd o Alcohol a Chyffuriau yn y Gwaith, Chwythu'r Chwiban a Diogelwch Technoleg Gwybodaeth.

Mae'r Fforwm Personél a Fforwm y Gymraeg wedi parhau gyda'u gwaith.

Er mwyn gweithio'n well tuag at ei amcanion cydraddoldebau, sefydlwyd Tîm Cydraddoldebau. Derbyniodd staff hyfforddiant Ymwybyddiaeth Byddardod ac ymwybyddiaeth materion Trawsryweddol hefyd.

## Cyfathrebu â Rhanddeiliaid

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Weithredwr i gyfarfod â grwpiau penaethiaid mewn cyfarfodydd awdurdod lleol a chlwstwr.

**Datblygu gwefan y Cyngor**

Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth am ei waith ym maes cofrestru, datblygu polisi, datblygiad proffesiynol parhaus a safonau proffesiynol. Caiff y wefan ei hadnewyddu bob tymor a'i diweddaru'n rheolaidd.

Chwaraeodd presenoldeb CyngACC ar Twitter ran gynyddol bwysig wrth gyfathrebu â rhanddeiliaid eleni.

## Aelodau’r Cyngor

**Cefnogaeth ar gyfer aelodau’r Cyngor**

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o’r Cyngor a rhaglen lawn o gyfarfodydd Pwyllgor yn ystod y flwyddyn (dangosir presenoldeb aelodau yn Atodiad B). Er mwyn i'r Cyngor a'i bwyllgorau allu parhau i weithredu'n effeithiol, mae CyngACC yn sicrhau bod aelodau unigol y Cyngor, pwyllgorau, is-bwyllgorau a thasgluoedd yn cael mynediad i wybodaeth gywir ac amserol o ansawdd uchel sy'n hwyluso arfer da a'r gallu i wneud penderfyniadau gwybodus.

**Llwyddiannau allweddol**

- **Gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2014-15 yn wyneb cyfyngiadau ariannol eithriadol**
- **Cynllunio blwyddyn olaf gweithrediadau CyngACC cyn iddo gael ei ad-drefnu fel Cyngor y Gweithlu Addysg**

**Amcan 6** Cyfrannu at y trefniadau i ad-drefnu CyngACC fel corff proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg ehangach

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Addysg (Cymru) i ymestyn rheoleiddio proffesiynol i gynnwys athrawon Addysg Bellach (AB) a staff cymorth dysgu mewn ysgolion ac ym maes AB fel ei gilydd. Cynigiwyd yn y Bil y byddai CyngACC yn parhau fel yr endid cyfreithiol ond y byddai'n cael ei ad-drefnu o ran ei ddulliau llywodraethu a'i enw newydd fyddai Cyngor y Gweithlu Addysg.

Fel y corff fyddai'n cael ei ad-drefnu, roedd y Cyngor o'r farn ei bod yn hollbwysig y dylai ddefnyddio'r profiad o reoleiddio proffesiynol oedd ganddo dros 14 o flynyddoedd i gyfrannu at ei gyfrifoldebau estynedig arfaethedig.

**<u>Helpu i lunio corff rheoleiddio newydd i Gymru</u>**

Cyn i'r Bil gael ei gyflwyno, cynhaliodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr sesiwn briffio ar gyfer Aelodau Cynulliad i amlygu materion y dylai Bil ar ymestyn rheoleiddio proffesiynol fynd i'r afael â nhw ym marn y Cyngor. Helpodd y sesiwn briffio hyn Aelodau Cynulliad yn y ddadl gyntaf pan gyflwynwyd y Bil yn y Senedd ar 2 Gorffennaf 2013.

Yn ystod Cam 2 y broses ddeddfwriaethol, cyflwynodd y Cyngor ddadansoddiad a thystiolaeth fanwl ar y Bil i Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad Cenedlaethol. Rhoddodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr dystiolaeth lafar gerbron y Pwyllgor hwnnw.

Yn ystod taith ddilynol y Bil, cadwodd y Cyngor mewn cysylltiad ag Aelodau Cynulliad. Yn sgil mewnbwn y Cyngor, cafwyd newidiadau i gymalau'r Bil mewn meysydd yn cynnwys cyngor, datblygiad proffesiynol, staff yn y sector annibynnol a defnydd o broses gweithdrefnau cadarnhaol y Cynulliad.

Derbyniodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2014.

**<u>Ymgysylltu â rhanddeiliaid</u>**

Drwy gydol y flwyddyn, cyfarfu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ag ystod o sefydliadau a fyddai'n cael eu heffeithio gan y newidiadau i ymestyn rheoleiddio proffesiynol. Roedd y rhain yn cynnwys Colegau Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ac undebau sy'n cynrychioli staff cymorth dysgu ac athrawon AB.

**<u>Cefnogi staff CyngACC drwy'r cyfnod trosiannol</u>**

Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r staff drwy ddiweddariadau rheolaidd drwy e-bost ac mewn cyfarfodydd briffio staff cyfan. Cynhaliwyd cyfarfod staff estynedig ym mis Tachwedd i drafod goblygiadau'r cyfnod trosiannol yn unswydd. Yn ystod y flwyddyn rhoddodd Adolygiad Datblygiad Sefydliadol a gynhaliwyd gan PSMW (Rhagoriaeth yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru) sicrwydd bod CyngACC yn gallu cyflawni'r gofynion disgwyliedig fyddai ar y corff wedi'i ad-drefnu.

**Llwyddiannau allweddol**

- **Cynnal sesiwn briffio ar gyfer Aelodau Cynulliad a helpodd i lywio'r drafodaeth ynghylch ymestyn rheoleiddio proffesiynol**
- **Cyflwyno dadansoddiadau a thystiolaeth fanwl ar Fil Addysg (Cymru) i Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad Cenedlaethol ac i'r Gweinidog a swyddogion**

**Aelodaeth y Cyngor**

## Aelodaeth a chyfrifoldebau'r Cyngor

Mae gan y Cyngor 21 o aelodau ar hyn o bryd. Caiff un aelod ar ddeg eu hethol yn uniongyrchol gan athrawon. Penodwyd saith aelod yn dilyn enwebiadau gan undebau athrawon a chyrff penodedig eraill a phenodwyd tri aelod yn uniongyrchol gan Weinidogion Cymru. Mae pedwar lle gwag ar y Cyngor ar hyn o bryd.

Ar gyfer y flwyddyn weithredol rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014, aelodau'r Cyngor oedd:

| | |
|---|---|
| Angela Jardine | Athrawes, Ysgol Gynradd Gabalfa, Caerdydd (Cadeirydd) |
| Sue Rivers | Cyn-ddirprwy Bennaeth, Ysgol Gyfun Bedwas, Caerffili (Dirprwy Gadeirydd) |
| Siôn Amlyn | Athro, Ysgol Eifionydd, Porthmadog |
| Philip Bassett | Darlithydd, Deon Addysgu a Dysgu, Prifysgol Glyndŵr |
| Celia Blomeley | Cyn-bennaeth Cynorthwyol, Ysgol Uwchradd Treffynnon, Sir y Fflint |
| Angela Butler | Athrawes, Ysgol Uwchradd Y Drenewydd, Y Drenewydd |
| Irene Cameron MBE | Llywodraethwr Ysgol / Is-gadeirydd, Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol Casnewydd |
| Tim Cox | Swyddog Cyd-drafod Cenedlaethol, NASUWT |
| Mal Davies OBE | Cyn-bennaeth, Ysgol Uwchradd Willows, Caerdydd |
| Roberto De Benedictis | Athro, Ysgol Gyfun Llangatwg, Castell-nedd |
| Sharon Freeguard | Pennaeth, Ysgol Gynradd Pennard, Abertawe |
| John Griffiths | Athro, Ysgol Iau Milton, Casnewydd |
| David Healey | Dirprwy Bennaeth, Ysgol Friars, Bangor |
| Alan Minton | Dirprwy Bennaeth, Ysgol Gynradd Parc Lewis, Pontypridd |
| Margaret Morris | Cyn-bennaeth, Ysgol Rhosgoch, Powys |

| | |
|---|---|
| Helen O'Sullivan | Pennaeth, Coleg Cymunedol Tonypandy, RhCT |
| Hugh Pattrick MBE | Is-gadeirydd Llywodraethwyr Cymru |
| Jane Setchfield | Athrawes, Ysgol Uwchradd Llanedeyrn, Caerdydd |
| Bernadette Thomas | Pennaeth Cynorthwyol, Ysgol Bodafon, Llandudno |
| Adrian Williams OBE | Cyn-bennaeth, Ysgol Arbennig Breswyl Pen-y-bryn a Maytree, Abertawe |
| Cleo Wilson-Sollars | Athrawes, Ysgol Gynradd St Therese, Port Talbot |

## Adolygu effeithiolrwydd y Cyngor

Mae manylion presenoldeb yr Aelodau mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod 2013-14 yn y tabl canlynol:

| Aelod | Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor (cyfanswm posibl mewn cromfachau) | Presenoldeb mewn Pwyllgorau Sefydlog (cyfanswm posibl mewn cromfachau) | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithredol** | **Polisi** | **Cofrestru** | **Archwilio a Chraffu** |
| Angela Jardine | 4 (4) | 4 (4) | 3 (3) | | |
| Susan Rivers | 4 (4) | 4 (4) | 3 (3) | | |
| Siôn Amlyn | 3 (4) | 3 (4) | | | |
| Phil Bassett | 3 (4) | | | 2 (4) | |
| Celia Blomeley | 4 (4) | 4 (4) | | | |
| Angela Butler | 2 (4) | | 2 (3) | | |
| Irene Cameron | 4 (4) | | | 3 (4) | |
| Tim Cox | 4 (4) | | | | 3 (4) |
| Mal Davies | 4 (4) | 4 (4) | | | |
| Roberto De Benedictis | 4 (4) | | | | 3 (4) |
| Sharon Freeguard | 2 (4) | 3 (4) | | | |
| John Griffiths | 4 (4) | | 3 (3) | | |
| David Healey | 4 (4) | | | | 4 (4) |
| Alan Minton | 4 (4) | | 2 (3) | | |
| Margaret Morris | 2 (4) | | | | 2 (4) |
| Helen O'Sullivan | 3 (4) | | | 4 (4) | |
| Hugh Pattrick | 3 (4) | | 3 (3) | | |
| Jane Setchfield | 4 (4) | | | 4 (4) | |
| Bernadette Thomas | 3 (4) | | | 2 (4) | |
| Adrian Williams | 4 (4) | | 2 (3) | | |
| Cleo Wilson-Sollars | 4 (4) | | | 4 (4) | |

## Rhoddion elusennol

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd y Cyngor £150 o roddion elusennol yn lle cardiau Nadolig.

# Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

## Datganiadau Ariannol Cryno
## ar gyfer y flwyddyn yn diweddu
## 31 Mawrth 2014

## Datganiadau Ariannol Cryno

Mae'r Datganiad Ariannol hwn yn darparu crynodeb o gyfrifon Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2014, yn deillio o'r Cyfrifon Blynyddol llawn a'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth. Nid yw’n cynnwys digon o wybodaeth i ganiatáu dealltwriaeth lawn o’r canlyniadau a sefyllfa Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. I gael gwybodaeth bellach dylid troi at y cyfrifon blynyddol llawn ac adroddiad yr archwilydd ar y cyfrifon hynny. Gellir cael copi o’r cyfrifon archwiliedig, sy’n cynnwys yr wybodaeth fanwl sy’n ofynnol dan y gyfraith ac o dan ganllawiau arfer gorau, yn rhad ac am ddim, gan y Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol), 9fed Llawr, Eastgate House, 35-43 Ffordd Casnewydd, Caerdydd CF24 0AB.

### Cefndir statudol

Sefydlwyd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a daeth i fodolaeth ar 1 Medi 2000. Diwygiwyd cylch gorchwyl a swyddogaethau’r Cyngor gan Ddeddf Addysg 2002.

Mae Swyddfa’r Cabinet wedi dynodi’r Cyngor yn gorff proffesiynol hunanreoleiddiol. Yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu, mae’r Cyngor wedi cyllido’i hun drwy ffioedd cofrestru athrawon, ar wahân i’r agweddau hynny ar ei waith sy’n cael eu cyllido drwy grant Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru’n cyhoeddi llythyr cynnig grant i’r Cyngor yn nodi’r amodau y dylid cydymffurfio â hwy mewn perthynas ag agweddau penodol ar y gwaith y mae’n ei gyllido. Mae’r Cyngor yn amlinellu ei weithdrefnau a’i reolau ariannol yn ei Reolau Sefydlog a’i Lawlyfr Cyllid.

Dan Baragraff 14 Atodlen 1 y Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch, mae’n ofynnol i’r Cyngor baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â’r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 19 Ebrill 2011. Mae copi o’r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gael ar gais gan y Cyngor.

### Adolygiad o’r flwyddyn a datblygiadau at y dyfodol

Ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2014, cofnododd y Cyngor ddiffyg o £173,000 (£67,000 o ddiffyg yn 2012-13) a chyfanswm asedau net o £233,000 (£460,000 ar 31 Mawrth 2013).

Wrth gynllunio ar gyfer y flwyddyn 2013-14, roedd cyllidebau'r Cyngor wedi dangos bod angen cynnydd o £2 yn y ffi er mwyn cynnal lefel gweithgarwch CyngACC a galluogi CyngACC i 'dalu ei gostau' ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn sensitif i gynyddu'r ffi gofrestru yng ngoleuni'r hinsawdd economaidd bresennol, ac felly, cynigiwyd y dylid cadw'r ffi ar lefel o £45 ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth geisio cytundeb y Gweinidog ar gyfer y ffi honno, nododd y Cyngor mai hon oedd y chweched flwyddyn i GyngACC lwyddo i gynnal y ffi ar yr un lefel a bod hyn ond yn bosibl mewn blynyddoedd blaenorol drwy ostwng y gweithgarwch bwriadedig. Am na allai'r Cyngor ostwng y gweithgarwch ymhellach heblaw mewn ffyrdd a fyddai'n effeithio

ar swyddogaethau rheoleiddio, cofrestru a chynghori craidd, tynnodd ar ei Gronfa Gyffredinol i ariannu ei waith a chynnal y ffi ar yr un lefel.

Roedd y Gronfa Gyffredinol eisoes wedi'i defnyddio i dalu am gynnydd sylweddol iawn uwchben lefel y gyllideb yn nifer yr atgyfeiriadau gwaith achosion safonau proffesiynol a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cydnabu'r Cyngor nad oedd cyllido diffyg o'r Gronfa Gyffredinol yn ateb cynaliadwy ac roedd ond yn fodlon argymell y camau hyn i'r Gweinidog, ar sail byrdymor eithriadol, gan gofio bwriad Llywodraeth Cymru i ad-drefnu CyngACC a'r cyfle y byddai hyn yn ei ddarparu i sefydlu lefel briodol o incwm ffioedd a fyddai'n gymesur â swyddogaethau a chwmpas y corff wedi'i ad-drefnu.

Roedd y Gweinidog yn fodlon cytuno i'r ffi gofrestru sefyll ar £45 o ystyried yr hinsawdd economaidd a nododd y byddai angen parhau i adolygu lefel y ffi y tu hwnt i 2013-14 a'i hystyried eto yn ystod yr hydref 2013.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y Cyngor i weinyddu rhaglen gyllido datblygiad proffesiynol Llywodraeth Cymru ar gyfer athrawon yn nhair blynedd cyntaf eu gyrfaoedd. Er bod y gyllideb a ddyrannwyd yn annigonol cadwodd Llywodraeth Cymru falans i dalu am gefnogaeth i'r holl athrawon â'r hawl i gael cymorth Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar. Roedd y Cyngor yn gysylltiedig â'r flwyddyn gyntaf o weinyddu'r rhaglen Meistr newydd mewn Ymarfer Addysgol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso.

- **Datblygiadau at y dyfodol**

Yn dilyn ymgynghoriadau cynt, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Addysg (Cymru) i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2013. Cynigiodd y Bil hwn ymestyn rheoleiddio proffesiynol i athrawon Addysg Bellach (AB) a staff cymorth dysgu mewn ysgolion ac AB; ac ad-drefnu CyngACC i greu Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

O dan y Ddeddf a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2014, bydd corff corfforaethol CyngACC yn parhau fel yr endid cyfreithiol ond caiff ei ailenwi a'i ad-drefnu o safbwynt llywodraethu. Bydd CyngACC, sy'n cynnwys rhai aelodau a etholir a rhai aelodau a benodir yn cael ei ddisodli gan CGA a fydd yn cynnwys 14 o aelodau a benodir. Bydd staff, asedau a dyledion CyngACC yn trosglwyddo i CGA.

Y disgwyl yw y bydd CGA yn dod i fodolaeth o fis Ebrill 2015. Bydd y Cyngor presennol yn cadw ei gyfrifoldebau llywodraethu hyd nes i CGA gael ei sefydlu.

Bydd blwyddyn 2014-15 yn flwyddyn drosiannol, felly, pan fydd angen i Lywodraeth Cymru benodi aelodau i CGA newydd a phan fydd angen gweithredu paratoadau i gofrestru athrawon AB ar 1 Ebrill 2015.

Bydd angen i gostau trosiannol y dyfodol yn ystod 2014-15 mewn perthynas â pharatoadau ar gyfer ad-drefnu'r Cyngor gael eu talu o adnoddau sy'n ychwanegol i'r gyllideb a ddarperir drwy Lywodraeth Cymru.

Mae Cynllun Corfforaethol dwy-flynedd ac amcanestyniadau ariannol y Cyngor (ar gyfer 2013-14 a 2014-15) yn cynnwys y cyfnod hyd at y broses ddisgwyliedig o ad-drefnu'r Cyngor.  Yn ogystal â'r cynllun ar gyfer 2013-14, sy'n rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn gallu parhau mewn bodolaeth ac y bydd ganddo ddigon o gyllid ar gyfer 12 mis o leiaf ar ôl i'r Cyfrifon gael eu llofnodi, ynghyd ag incwm y corff newydd yn y dyfodol, mae'r Cyfrifon hyn wedi'u paratoi ar sail 'busnes hyfyw'.

Ym mis Rhagfyr 2013, ysgrifennodd y Cyngor at y Gweinidog mewn perthynas â'i gyllideb ar gyfer 2014-15 a'r ffi gofrestru ofynnol ar gyfer blwyddyn olaf y Cyngor cyn iddo gael ei ad-drefnu fel Cyngor y Gweithlu Addysg.

Roedd gwrandawiadau achosion safonau proffesiynol a gynhelir 'yn ôl y galw' wedi parhau i dyfu o ran eu nifer a'u cymhlethdod yn ystod blwyddyn 2013-14 ac felly cyllidebodd y Cyngor am 40 o wrandawiadau a chyfarfodydd yn 2014-15. Ychwanegodd hyn yn sylweddol at y gwariant a gyllidebwyd.

Er mwyn ceisio gosod cyllideb o 'dalu ei gostau', gosododd y Cyngor doriadau ac arbedion llym pellach, gan beri risgiau sylweddol i weithrediad swyddogaethau'r Cyngor. Crynhowyd y risgiau hyn mewn llythyr i'r Gweinidog.

O fewn y cyfrifoldebau a oedd gan yr aelodau mewn perthynas â llywodraethu'r Cyngor yn ariannol yn y modd cywir, gwnaed argymhelliad, felly, i'r Gweinidog y dylid cynyddu £3 ar y ffi. Gwrthododd y Gweinidog, gan adael y Cyngor ag incwm ffioedd nad oedd wedi newid ers saith mlynedd. Yn sgil hyn gorfodwyd rhai toriadau terfynol, ynghyd â'r penderfyniad i ddyrannu ei holl gronfeydd ariannol wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn gwrthbwyso'r gyllideb amcanestynedig o ddiffyg.  Bydd hyn hefyd yn golygu na fydd gan GyngACC unrhyw gronfa wrth gefn i'w throsglwyddo i CGA.

Ni ddyrannwyd unrhyw ran o gyllideb CyngACC i wariant ar weithgareddau'n ymwneud â CGA sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru.

**Aelodau'r Cyngor**

Rhestrir aelodau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn yn yr Adroddiad Blynyddol. Mae Cofrestr Buddiannau Aelodau ar gael i'r cyhoedd ei darllen.

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Datganiadau Ariannol Cryno**

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol cryno a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ar ddatganiadau ariannol statudol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a nodir ar dudalennau 5 i 7.

**Priod gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a'r archwilydd**

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Fy nghyfrifoldeb i yw nodi fy marn ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno â'r datganiadau ariannol statudol, Adroddiad y Cyfarwyddwyr, y Crynodeb Gweithredol a'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth. Rwyf hefyd yn darllen yr wybodaeth arall a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol cryno.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy ngwaith yn unol â Bwletin 2008/3 'The auditor’s statement on the summary financial statements' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig.

**Barn**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol statudol, Adroddiad Cyfarwyddwyr, Crynodeb Gweithredol ac Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014 yr wyf wedi rhoi barn ddiamod arnynt.

Nid wyf wedi ystyried effeithiau unrhyw ddigwyddiadau rhwng y dyddiad y llofnodais fy adroddiad ar y datganiadau ariannol llawn, sef 5ed Awst 2014 a dyddiad y datganiad hwn.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**5ed Awst 2014**

**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**

**Datganiad Cryno o Incwm Cynhwysfawr**
**ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014**

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| **Incwm** | | |
| Grant gan Lywodraeth Cymru | 7,089 | 6,403 |
| Ffioedd cofrestru | 1,701 | 1,706 |
| Taliadau o gofrestriadau athrawon ar gyfer gwiriadau datgeliadau'r SCT | 40 | 44 |
| Rhyddhawyd o gronfeydd | 60 | - |
| Rhyddhawyd o ddarpariaeth heb ei defnyddio | - | 18 |
| Incwm arall | 11 | 5 |
| | **8,901** | **8,176** |
| **Gwariant** | | |
| Costau staff | 1,211 | 1,171 |
| Costau rhaglen uniongyrchol | 704 | 603 |
| Costau rhaglen Sefydlu a DPC | 6,590 | 5,985 |
| Costau gweithredu eraill | 569 | 484 |
| | **9,074** | **8,243** |
| **Gwarged ar weithgareddau cyffredin** | **(173)** | **(67)** |
| Llog derbyniadwy | 6 | 16 |
| **Gwarged ar gyfer y flwyddyn a drosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn** | **(167)** | **(51)** |
| **Dyraniadau** | | |
| Ad-dalu costau - Cadeirydd: Angela Jardine | 25 | 27 |
| Cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr: Gary Brace | 85 | 89 |
| Cyflogau uwch aelodau staff eraill | 139 | 136 |

Mae'r holl weithgareddau a gyllidir gan y Cyngor yn parhau.

## Datganiad Cryno ar y Sefyllfa Ariannol
## ar 31 Mawrth 2014

| | 2014 | 2013 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Asedau anghyfredol | 128 | 150 |
| Asedau cyfredol | 2,138 | 2,999 |
| **CYFANSWM ASEDAU** | 2,266 | 3,149 |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | (1,988) | (2,620) |
| **CYFANSWM RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | (1,988) | (2,620) |
| **RHWYMEDIGAETHAU HIRDYMOR** | | |
| Credydwr gohiriedig | (21) | (30) |
| Incwm grant gohiriedig | (24) | (39) |
| **ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU** | **233** | **460** |
| **CYLLIDWYD GAN** | | |
| Cronfeydd | 233 | 460 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | **233** | **460** |

## Datganiad Cryno Llifoedd Arian
## ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Mewnlif/ (all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu** | (1,137) | 1,541 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | |
| Llog a dderbyniwyd | 6 | 16 |
| **Gwariant cyfalaf** | | |
| Taliadau i gaffael asedau anghyfredol | (62) | (111) |
| **Cynnydd/ (Gostyngiad) mewn arian parod** | **(1,193)** | **1,446** |

**Datganiad Cryno o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr**
**ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014**

| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr** | **2013-14** | **2012-13** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans ar 1 Ebrill | 460 | 511 |
| (Diffyg)/Gwarged ar gyfer y flwyddyn | (167) | (51) |
| Trosglwyddiadau (o)/ i gronfeydd dynodedig | (60) | - |
| **Balans terfynol ar 31 Mawrth** | **233** | **460** |

**Gary Brace**
**Prif Weithredwr**
**17eg Gorffennaf 2014**

**NODYN 1.** Mae'r datganiad ariannol cryno hwn wedi'i baratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006, mewn perthynas â Rheoliadau Cwmnïau (Datganiad Ariannol Cryno) 2008 (OS 2008 / 374) cyn belled ag y bo'n berthnasol.

**NODYN 2.** Gwnaed datganiad cyflawn o Drafodion â Phartïon Cysylltiedig yn unol â Safon Adrodd Ariannol 8, a cheir manylion yn y datganiadau ariannol llawn, sydd ar gael ar gais.